

Sut mae Islam yn cydweddu â damcaniaethau gwyddonol

Y gwahaniaeth allweddol rhwng Islam a gwyddoniaeth yw bod Mwslimiaid yn credu i Allah greu'r bydysawd yn rhan o'i gynllun meistr dwyfol. Mae'r Glec Fawr a damcaniaethau gwyddonol eraill am greu'r bydysawd yn awgrymu sut gallai mater ddod ynghyd a rhannu heb fod angen cyfeirio at achos cyntaf. Fodd bynnag, p'un a yw hi'n ddamcaniaeth y Glec Fawr neu un o'r damcaniaethau eraill, mae Mwslimiaid yn credu bod Duw ar waith yn y cread yn barhaus. Mae'r Qur'an fel petai'n cytuno i newid ddigwydd yn raddol; i'r planedau symud oddi wrth ei gilydd; yna i fywyd ddod i fod. Ond mae Mwslimiaid yn gweld mai Allah yw'r rheswm y tu ôl i newidiadau o'r fath gan eu bod yn dadlau mai Allah sy'n creu'r grymoedd i reoli'r bydysawd, ac felly mae'n bosibl derbyn y digwyddiadau y mae gwyddonwyr modern yn eu disgrifio yn eu fersiwn nhw o'r creu. Gwelodd llawer o athronwyr Mwslimaidd fel Al-Buiruni dystiolaeth yn y byd a oedd yn cyfeirio at Allah fel creawdwr a'r achos cyntaf. Hefyd dadleuon nhw fod y bydysawd wedi cael ei greu o fewn amser. Roedd athronwyr yr oesoedd canol yn defnyddio rheswm i ddadansoddi'r hyn roedden nhw'n ei weld. Roedden nhw'n ceisio gwneud synnwyr o'r creu, yn union fel byddai gwyddonydd yn ei wneud heddiw. Mae'r dull gwyddonol hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddangos bod prydfferthwch ac ystyr yn y bydysawd a grym y tu ôl i'r cyfan.

Ond, mae creu'r ddynoliaeth yn cyflwyno un o'r damcaniaethau gwyddonol mwyaf anodd a dadleuol i Fwslim: esblygiad. Yn union fel credinwyr crefyddol eraill o wahanol draddodiadau crefyddol, mae llawer o Fwslimiaid yn gwrthod damcaniaeth esblygiad yn llwyr. Maen nhw'n derbyn, os mai 'Duw' yw Allah, yna fod popeth yn bosibl. Maen nhw'n cyflwyno'r farn fod y Qur'an yn dweud bod Allah wedi creu bodau dynol o lwch, felly wnaeth bodau dynol ddim esblygu o rywogaethau eraill. Ond mae rhai Mwslimiaid sy'n derbyn y gallai Allah, gan ei fod yn rheoli'r creu'n barhaus, fod wedi llywio esblygiad yn rhan o gynllun cyffredinol. Er enghraifft, mae syniadau'r ysgolhaig Ibn Khaldun yn ymddangos yn rhyfeddol o debyg i ddamcaniaeth esblygiad. Cynigiodd Khaldun fod newid graddol iawn wedi bod o'r naill rywogaeth i'r llall. Cynigiodd fod bodau dynol, sydd ar frig y cam esblygol oherwydd eu gallu rhesymegol a gwybyddol, wedi datblygu o fwncïod.

Heddiw mae gwahaniaeth barn o hyd o fewn Islam, er bod mwy o gefnogaeth wedi bod i'r lobi gwrth-esblygiad. Yn wir, mae rhai gwyddonwyr, fel Nidhal Guessoum, yn gweld bod yr adfywiad hwn fel mwy o reswm dros addysgu Mwslimiaid am greadigaeth ac esblygiad fel eu bod yn dod i ddeall gwyddoniaeth yn well. Gwaetha'r modd bu achosion pan mae Mwslimiaid unigol wedi datgan nad oedd esblygiad yn groes i gredu yng nghread Duw, gan gael ymateb gelyniaethus gan eu cyd-Fwslimiaid. Mae hyn yn dangos bod llawer yn credu'n gryf fod hyn yn ymosod ar eu credoau.

Ateb:

Drwy gydol hanes Islamaidd bu ymdrechion i gysoni safbwyntiau Islamaidd am y cread â'r fethodoleg a'r sylwadau sydd mewn damcaniaethau gwyddonol. Mae rhai Mwslimiaid yn hapus i weld mai Allah oedd y tu ôl i'r Glec Fawr; mae eraill yn gwrthod hynny'n llwyr. Mae esblygiad yn fwy dadleuol ac er bod lleiafrif o Fwslimiaid sy'n dadlau y gallai Allah fod wedi llywio datblygiad rhywogaethau, mae mwyafrif cynyddol sy'n gwrthod y ddamcaniaeth ac sy'n ei hystyried yn ymosodiad ar eu credoau.

Stori'r creu Islamaidd

Mae Mwslimiaid yn edrych tuag at y Qur'an a'r hadith i gael gwybodaeth am sut cafodd y byd ei greu. Mae Allah, yr Un, y tu hwnt i amser a'r tu hwnt i ffurf. Nid rhywbeth wedi'i greu yw Allah ac nid yw'n bosibl ei weld. Mae'r bydysawd yn cael ei weld fel y cafodd ei greu gan Allah. Does dim byd yn digwydd heblaw am ewyllys Duw: Mae Duw'n dweud bydded i rywbeth fod ac felly mae. Felly, Allah yw achos cyntaf y creu.

Mae'r Qur'an yn dweud bod y nefoedd a'r ddaear gyda'i gilydd fel un, pan gawson nhw eu rhannu. Yna cymeron nhw eu ffurf bresennol. Cafodd y ddaear ei chreu fesul cam: mynyddoedd, y nefoedd, y sêr. Digwyddodd hyn mewn cyfnodau o amser sy'n gallu cael eu cyfieithu fel oesoedd, diwrnodau neu gyfnodau hir amhenodol. Dydy'r Qur'an o angenrheidrwydd ddim yn rhoi'r digwyddiadau mewn trefn y bydden ni'n ei hadnabod, ond mae'n dweud bod Allah wedi creu popeth byw a oedd yn gallu cerdded, nofio yn y môr, cropian ar y tir a hedfan yn yr awyr a bod y rhain wedi dod o'r dŵr. Gwnaeth yr haul, y lleuad a'r sêr, y glaw, y llyisiau a'r cnydau a'r coed ffrwythau a'r gwair.

Mae hanes creu'r bodau dynol cyntaf mewn Islam yn cael ei ddisgrifio yn y Qur'an. Dyma hanes Adam a Hawa, neu Adda ac Efa fel maen nhw'n cael eu galw yn Gymraeg. Casglodd Allah ychydig o glai a'i fowldio i siâp y dyn cyntaf, Adda. Anadlodd fywyd i'r clai. Daeth y Proffwyd Adda'n fyw. Cafodd Hawa ei gwneud o asen Adda, yn ôl traddodiad Sunni. Roedd Adda ac Efa'n byw mewn gardd baradwys. Gorchmynnodd Allah i'r angylion i gyd ymgrymu i Adda. Gwnaethon nhw i gyd hynny. Ond roedd Iblis, y mae rhai'n ei alw'n angel neu jin, yn rhy drahaus i ymgrymu, gan ei fod yn meddwl ei fod yn well.

Roedd Adda ac Efa'n byw yng ngardd paradwys a chafodd Adda wybodaeth am bopeth, enwau'r holl creaduriaid. Cawson nhw fwynhau'r ffrwythau a'r blodau heblaw am un ffrwyth y goeden waharddedig. Ond daeth Iblis a themtio Adda ac Efa i fwyta'r ffrwyth gwaharddedig. Bwyttodd y ddau'r ffrwyth gwaharddedig ac wrth wneud hynny anufuddhaon nhw i Allah. Sylweddolon nhw eu bod nhw wedi anufuddhau a chollon nhw eu hymdeimlad o heddwch. Gorchuddion nhw eu hunain mewn cywilydd. Fel cosb, anfonodd Allah nhw i fyw yn y byd. Maddeuodd Allah i Adda ac Efa a buon nhw'n byw ar y ddaear a deilliodd pob bod dynol oddi wrthyn nhw. Buodd eu teulu'n byw ar y ddaear, bob amser mewn perygl o gael eu temtio gan Iblis, y shaytan (Satan).

Mae hi'n bosibl dehongli stori'r ffrwyth gwaharddedig fel dameg. Geiriau da, diymhongar yw'r hyn sy'n ofynnol gan Allah; temtasiynau gan y diafol yw temtasiynau drygionus a meddyliau trahaus.

Y rhan bwysicaf o stori'r creu Islamaidd yw mai Allah yw'r achos cyntaf. Mae'r Qur'an yn cyfeirio dro ar ôl tro at y bydysawd fel man lle mae arwyddion i bobl sy'n credu ac sy'n myfyrio arnyn nhw. Byddai hyn fel petai'n cefnogi'r syniad o Qur'an sydd wedi'i ddatgelu drwy natur; o gredoau sydd wedi'u gweithio allan drwy edrych ar y byd o gwmpas.

(Cyfieithiad o addasiad *Islam* gan Idris Morar)